Cyngor Tref
Rhuddlan
Town Council

Cofnodion y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2024 yn Hwb Rhuddlan, gyda chyfleusterau hybrid ar gael.

1. **YN BRESENNOL** – Y Cynghorwyr Jackie Burnham, Mike Kermode (yn gweithredu fel Ymgynghorydd Personél a Chlerc y Pwyllgor hefyd) a Val Simmons; yn ogystal â Chlerc y Dref.

2. **YMDDIHEURIADAU** – Dim.

3. **ETHOL CADEIRYDD –** Cynigiwyd, eiliwyd a **phenderfynwyd** mai'r Cynghorydd Mike Kermode fydd cadeirydd y pwyllgor.

4. **DATGAN BUDDIANT** – Dim

5. **COFNODION** – Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024 wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo eisoes gan Gyngor y Dref ar 14 Mawrth. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **BUSNES RHAN 2** – Cynigiwyd a **phenderfynwyd,** yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o weddill y cyfarfod oherwydd y trafodir materion y byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddynt yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

7. **MATERION STAFFIO:**

   **Ailstrwythuro Staff** – Nododd y Pwyllgor fod y Clerc Cynorthwyol wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad a chroesawyd y newyddion ei fod yn fodlon aros yn y swydd tan ddiwedd mis Awst. Yna trafododd y Pwyllgor yr opsiynau posibl ar gyfer ailstrwythuro a chytunwyd i **argymell** y trefniadau canlynol i'r Cyngor:

   - **Newid oriau** – Newid oriau Clerc y Dref o 34 awr yr wythnos i 28 awr yr wythnos. Byddai'r cyflog yn sgil cwtogi 6 awr yr wythnos yn cael ei drosglwyddo i oriau'r Clerc Cynorthwyol; gan olygu bod y swydd honno bellach yn gweithio cyfanswm o 50 awr y mis (yn hytrach nag 20 awr y mis). Gellir gweithio'r oriau hyn mewn ffordd hyblyg ond rhaid cofnodi'n glir sut cawsant eu defnyddio.

   - **Rôl Newydd y Clerc Cynorthwyol** – Bydd yr oriau ychwanegol yn rhoi cyfle i'r Clerc Cynorthwyol gael rôl ehangach a chyflenwi yn lle Clerc y Dref. Bydd hyn yn golygu bod modd cyflenwi'n effeithiol ar yr adegau hynny pan allai Clerc y Dref fod yn absennol oherwydd gwyliau neu salwch. Bydd rolau'r swydd yn cynnwys y dyletswyddau presennol, fel cofnodion cyfarfodydd ac arolygu offer chwarae. Byddant yn awr hefyd yn cynnwys trefnu /cefnogi digwyddiadau'r Cyngor, rhedeg 50% o'r Marchadoedd Cymunedol a chalendr cymdeithasol y Maer/Dirprwy Faer.

Darperir hyfforddiant a chymorth ar gyfer gweithrediad system cyllid/taliadau Rialtas ac elfennau perthnasol o faes llafur CiLCA.

- **Y Broses Recriwtio –** Bod y Pwyllgor Personél yn cael pwerau llawn i recriwtio ar gyfer y swydd newydd. Mae hyn yn cynnwys llunio'r swydd-ddisgrifiad, y gofynion o ran sgiliau/profiad, hysbysebu, llunio rhestr fer a chynnal cyfweliadau ynghyd â dewis/penodi. Gall Aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Personél gynnig eu mewnbwn ar faterion fel gofynion sgiliau/profiad ac awgrymu cwestiynau agored posibl ar gyfer y cyfweliadau.

## 8. Y BROSES GWYNO

Trafododd y Pwyllgor sawl darn o ohebiaeth rhwng Clerc y Dref, Swyddog Monitro CSDd, a Chynghorydd Tref. Cytunwyd bod angen codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Cyngor y Dref.